



Ein Dyfodol Digidol

Map Ffordd Digidol ar gyfer lechyd yng Ngogledd Cymru

2021 - 2024



Ein huchelgeisiau



Cleifion a Gofalwyr wedi'u Galluogi

Yn gallu defnyddio technolegau digidol i reoli gofal / gofal pobl eraill yn weithredol, cyfathrebu ac i ddweud fy nweud ar wasanaethau.

Staff wedi eu Cysylltu

Yn gallu cyrchu'r wybodaeth gywir, yn y lle iawn ar yr amser iawn, gyda'r dyfeisiau cywir. Cefnogir i fod yn hyderus i ddefnyddio technoleg a gwybodaeth i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Ein Galluogwyr

Partneriaethau Cryf

Gallwn rannu gwybodaeth berthnasol yn ddiwriad gyda'n partneriaid allweddol ac rydym yn gweithio'n gyd-gynhyrchiol i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio gyda'n Cleifion, Staff, Partneriaid Allweddol a Chyflenwyr.

Cynhwysiant Digidol

Rydym yn gwbl ymwybodol o effaith unrhyw ffyrdd newydd o weithio ar ein cleifion, gofalwyr a staff fel y gallwn roi cynlluniau ar waith i sicrhau cynhwysiant.

Trefniadaeth Ddigidol

"Meddwl yn Ddigidol" Rydym yn mynd ati i ddatblygu ac aeddfedu ein diwylliant digidol trwy arweiniad ymrwymedig ac atebol, bod yn integredig trwy ein prosesau cynllunio busnes gyda'r buddsoddiad addas i wella. Cyflwyno buddiannau i gleifion a staff: ariannol, heb fod yn ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol.



Sylfeini Digidol Cryfach

Mae ein seilwaith, systemau, dyfeisiau a chefnogaeth TGCh a ddarperir yn addas ar gyfer heddiw a'r dyfodol, mae gennym ddiogelwch gwybodaeth a llywodraethu cryf, ac rydym yn cael y gorau gan ein cyflenwyr.

Gwybodaeth er Gwella

Rydym yn defnyddio data o ansawdd i greu deallusrwydd i wneud penderfyniadau gwell, rhagweld y galw a gwella gwasanaethau.

Croesawu Arloesedd

Rydym yn cadw'n gyfoes â syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio, a bod yn rhan o ymchwil a datblygu arloesol a buddsoddi ynddo. Yr ydym yn dysgu o'r arferion gorau ac yn barod i'w mabwysiadu.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

I ddarllen y strategaeth lawr, ymwelwch â
cutt.ly/BIPBC_Strategaeth-Digidol